Chwaraeon

#FELMERCH

# Pêl-droed 5x5 Gogledd Cymru

**Rheolau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol**

**Dydd Iau 5 o Fawrth 2026, Bae Colwyn**

## 1)Trefn Cystadlu

Bydd cofrestru yn agor o 9:00yb gyda gemau yn cychwyn am 10:00 ac yn rhedeg hyd at 16:30. Bydd fwy o fanylion am amseroedd y gemau yn cael ei rannu ar e-bost cyn y gystadleuaeth, bydd y trefn chwarae hefyd ar gael ar system canlyniadau SOCS. **Gall amser gorffen y gystadleuaeth newid - cyfeiriwch at drefn chwarae derfynol y gystadleuaeth am amser gorffen penodol**

Gemau hyd at 12 munud syth trwodd.

## 2)Draw

Agored / Merched Blwyddyn 7-8 a Blwyddyn 9-10

Bydd y draw yn cael ei rannu gyda'r timau wythnos cyn y gystadleuaeth – bydd trefn y gemau hefyd ar gael ar SOCS

## 3) Pwyntiau rowndiau grŵp

- 3 pwynt i enillwyr gêm, 1 pwynt am gêm gyfartal, 0 pwynt am golli
- Os mae timau yn gyfartal ar bwyntiau ar ôl pob gêm cael ei chwarae bydd y canllawiau isod yn dewis safle grŵp. Trefn isod yn dangos blaenoriaeth.
  - Gwahaniaeth Goliau
  - Mwyaf o goliau sgoriwyd
  - Lleiaf o goliau ildiwyd
  - Canlyniad 'Head to Head' rhwng y timau cyfartal
  - Taflu ceiniog rhwng hyfforddwyr y timau
- Os ydi tîm yn tynnu allan o'r gystadleuaeth cyn cwblhau pob gêm bydd 'bye' yn cael ei rhoi i bob gêm maen nhw wedi a mynd i chwarae. Bydd hwn yn ganlyniad o 10-0 i'r tîm sydd dal yn y gystadleuaeth.

## 4) Canlyniad gêm rownd derfynol

- Bydd enillwr gêm rownd derfynol yn mynd trwy i'r rownd nesaf, bydd y tîm sy'n colli allan o'r gystadleuaeth
- Os mae gêm gyfartal ar ôl diwedd amser arferol bydd y canllawiau isod yn dewis enillwr
- Uchafswm o 2 munud pob ffordd o amser ychwanegol i'w chwarae
- Os does dim enillydd ar ôl amser ychwanegol bydd ciciau smotyn.
- Os mae tîm yn tynnu allan cyn chwarae gêm rownd derfynol bydd canlyniad o 'bye' yn cael ei rhoi ar gyfer y gêm. Bydd y tîm dal yn y gystadleuaeth yn symud ymlaen i'r rownd nesaf heb chwarae.

**5) Cofrestru**

- 8 chwaraewr ym mhob carfan.
- Bydd hawl cofrestru 2 tîm yn unig
- Nid oes hawl i chwaraewyr chwarae mewn cystadleuaeth blynyddoedd ysgol nad ydyn yn mynychu
- Nid oes hawl gan chwaraewr cystadlu ar fwy nag 1 tîm
- Nid oes hawl gan ysgolion sydd wedi ffederaleiddio gyfuno i greu timau
- Mae angen llenwi ffurflen cofrestru chwaraewyr gydag enwau a dyddiad geni cyn y gystadleuaeth.

**6) Eilyddion**

- Mae  hawl gwneud eilyddion yn ystod toriad chwarae (e.e ar ôl gôl neu cic rhydd)
- Bydd unrhyw chwaraewr sy’n dod oddi ar y cae oherwydd anaf angen cael ei asesu gan aelod o staff cyn cael chwarae eto.

**7) Taliad**

- Mae angen talu £100 am bob tîm o leiaf wythnos cyn dechrau’r gystadleuaeth.
- Bydd ysgolion yn gymwys i dderbyn ad-daliad o £12.50 am bob chwaraewr ar y ffurflen cofrestru chwaraewr oedd yn aelod o’r Urdd cyn y gystadleuaeth. I hawlio’r ad-daliad yma plîs cysylltwch a chwaraeon@urdd.org ar ôl y gystadleuaeth.

**8) Dyfarnu**

- Bydd dyfarnwyr yn cael ei apwyntio gan yr Urdd.
- Mae penderfyniad y dyfarnwyr yn derfynol. Os mae unrhyw unigolion neu dimau yn amharchus i staff neu ddyfarnwyr gall arwain at y tîm yn colli ei le yn y gystadleuaeth.
- Darllenwch fwy am cod ymddygiad yr Urdd yma: https://bit.ly/CodYmddygiad

**9) Sgorio**

- Mae’n gyfrifoldeb y dyfarnwr cadw sgôr y gem.
- Bydd canlyniadau pob gêm yn cael ei rhoi ar system canlyniadau SOCS. Gall pob ysgol dilyn y gystadleuaeth trwy’r rhaglen yma.

**10) Meddygol**

- Dylai timau bod yn ymwybodol fod cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon yn dod a pherig anafiadau. Rydyn yn gofyn fod timau yn dod ac offer cymorth cyntaf syml megis plasteri neu dap chwaraeon.
- Bydd yr Urdd yn sicrhau fod ymatebwyr cyntaf proffesiynol yn bresennol yn y digwyddiad i ymateb i unrhyw anafiadau neu argyfyngau meddygol yn ystod y digwyddiad.

- Mae'n hanfodol fod timau yn hysbysu'r Urdd o unrhyw gyflyrau iechyd perthnasol sydd gan unigolion sy'n mynychu'r digwyddiad ac allai ofyn am sylw penodol.

- Os mae dyfarnwr yn pryderu dros iechyd unigolion mae ganddynt yr hawl i atal chwaraewyr rhag chwarae.

**11) Gyffredinol**

- Cyfrifoldeb yr hyfforddwyr yw sicrhau fod ei thîm wrth y cae ar amser, o leiaf 5 munud cyn i'r gem dechrau er mwyn dewis pwy sydd yn cychwyn y gem.

- Rhaid hysbysu'r Urdd am unrhyw ddisgybl(ion) sydd ddim yn caniatáu/ dymuno cael eu llun wedi'i dynnu. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn bolisi Ffotograffiaeth yr Urdd:

- Bydd y gystadleuaeth yn cymryd lle mewn ardal gyhoeddus. Cyfrifoldeb hyfforddwyr yw sicrhau fod plant yn ymddwyn yn ystod y dydd. Gall plant yn gam ymddwyn at y tîm yn colli ei le yn y gystadleuaeth.

**12) Rheolau Ychwanegol**

Cic cosb a Cic-rhydd

- Cic-rhydd - mae rhaid i'r tîm sy'n amddiffyn bod o leiaf 2 llath yn nol o'r bel.
- Bydd ciciau smotyn yn gael ei cymryd gyda dim ond 1 cam.
- Ni chaniateir chwaraewyr i lithro ar y llawr i wneud tacl na chwarae'r bel tra bod nhw ar y llawr.
- MI FYDD CIC O'R SMOTYN OS: Mae'r gôl-geidwad yn dod allan o'r cwrt cosbi ac yn manteisio o'r symudiad (penderfyniad y dyfarnwr sy'n cyfri). Neu, mae amddiffynnwr yn camu i mewn i gwrt cosbi eu hun ac yn manteisio o'r symudiad.

Cwrt Cosbi a'r Gôl Geidwad

- Y gôl-geidwad yn unig sy'n cael bod yn yr ardal cosb
    - Os bu amddiffynnwr yn sefyll o fewn yr ardal cosb mi fydd y tîm sy'n ymosod yn ennill cic o'r smotyn
    - Os bu ymosodwr yn sefyll o fewn yr ardal cosb mi fydd gôl geidwad y tîm sy'n amddiffyn yn ennill y bel

- Mae rhaid i gôl-geidwad chwarae'r bel trwy rolio'r bel 'under arm'. Os mae'r gôl-geidwad yn torri'r rheol yma, bydd cic-rhydd anuniongyrchol 2m tu allan o'r ardal cosb
- Pan fydd chwaraewr yn derbyn y bêl gan y golwr, RHAID i chwaraewr arall gyffwrdd â'r bêl cyn cael ei phasio'n ôl i'r golwr.

Cardiau

- Mi fydd unrhyw chwaraewr sy'n derbyn cerdyn melyn yn eistedd allan am 2 funud
- Mi fydd unrhyw chwaraewr sy'n derbyn cerdyn coch yn cael eu gwahardd rhag chwarae eto yn y gystadleuaeth

Ail-gychwyn y gêm

- Os mae'r pêl yn gadael y cae, mi fydd y tîm sy'n cyffwrdd y pêl olaf yn ildio meddiant y pêl. Mi fydd y gwrthwynebwyr yn ail-ddechrau'r gem trwy cicio'r pêl nol fewn, neu gyda cic cornel.
- Ar ôl i gôl cael eu sgorio, mi fydd y tîm wnaeth ildio'r gôl yn ail-ddechrau'r gem o canol y cae

Maint y cae

- Maint mwyaf y cae yw 40x30m

Chwarae'r pêl yn yr awyr

- Gall y pêl cael eu chwarae yn yr awyr

**13) Gwisg**

- Bydd bibiau yn cael ei rhoi allan am gemau gyda thimau sy'n chwarae mewn lliwiau tebyg. Rydyn yn gofyn fod ysgolion yn dod a bibiau ei hun i leihau'r posibilrwydd o drawsgludo germau neu afiechydon.

- Chwaraewyr i wisgo esgidiau addas ar gyfer cae 4G wedi clymu o flaen y tafod yn y ffordd briodol.
    - Ni all chwaraewyr gwisgo boots gyda studs metal – dim ond 'Mouldies neu esgidiau Astro sydd yn iawn.

- Chwaraewyr i sicrhau fod ei ewin wedi torri'n fyr yn dilyn canllawiau rheolau'r gêm. Mi fydd dyfarnwyr yn gwirio hyn cyn gemau.

- Nid oes hawl gwisgo eitemau miniog yn y gwallt neu emwaith wrth chwarae heblaw am resymau meddygol. Mi fydd dyfarnwyr yn gwirio hyn cyn gemau.

- Ni fydd chwaraewyr yn cael chwarae heb gwisgo 'shin pads'